**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Hybrid Meeting Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Evans (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Mel Buckley, Chris Dolphin, Mared Eastwood, Richard Lloyd, Mike Peers, Vicky Perfect, Dan Rose a Roy Wakelam

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Bernie Attridge ar gyfer y Cynghorydd Ian Hodge, a'r Cynghorydd Teresa Carberry ar gyfer y Cynghorydd Ray Hughes.

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd), y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol), y Cynghorydd David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd, Rheolwr Rhwydwaith Ardal, Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth, Swyddog Bioamrywiaeth, Goruchwyliwr Gwasanaethau Stryd, a Rheolwr Cynnal a Chadw Gwasanaethau Stryd (De a Strwythurau). Ar gyfer cofnod rhif 63: David Matthews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, Uchelgais Gogledd Cymru.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

## 60. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Teresa Carberry gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar y rhaglen: Strategaeth Toiledau Lleol.

## 61. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 1 Chwefror a 7 Chwefror 2023.

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir, fel y cynigiwyd ac eiliwyd gan y Cynghorydd Roy Wakelam a'r Cynghorydd Mike Allport.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 62. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a'r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu. Cyfeiriodd at gyfarfod nesaf y Pwyllgor, a gynhelir ar 23 Mawrth, a fydd yn gyfarfod ar y cyd gyda Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant i ystyried parcio y tu allan i

ysgolion, a’r eitemau a restrwyd ar gyfer eu hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.  Tynnodd yr Hwylusydd sylw hefyd at y gweithdai ar y meini prawf eithriadau ar gyfer gweithredu deddfwriaeth 20mya sydd i’w cynnal ar 15 Mawrth 2023.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at adroddiad Olrhain Camau Gweithredu a oedd wedi ei atodi i’r adroddiad, a dywedodd fod yr holl eitemau a oedd yn weddill wedi eu cwblhau.

Gwahoddwyd yr Aelodau i godi unrhyw eitemau eraill yr oeddent yn dymuno eu cyflwyno i’w cynnwys ar y Rhaglen.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a’u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Roy Wakelam.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i’r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; ac

(c) Y byddai’r Pwyllgor yn nodi’r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

**63. CYFLWYNIAD GAN REOLWR Y RHAGLEN TIR AC EIDDO AR GYFER UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) eitem i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa bresennol prosiectau’r Rhaglen Tir ac Eiddo a’r broses o ganfod prosiectau amgen.  Darparodd wybodaeth gefndir a chyd-destun gwaith Uchelgais Gogledd Cymru, a chyflwynodd David Matthews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, Uchelgais Gogledd Cymru.  Rhoddodd Mr Matthews gyflwyniad am Fargen Dwf Gogledd Cymru – Rhaglen Tir ac Eiddo, a oedd yn ymdrin â’r pwyntiau canlynol:

- ein Partneriaid
- ein gweledigaeth
- egwyddorion
- amcanion
- buddsoddiad
- 5 rhaglen
    - Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel
    - Bwyd-amaeth a thwristiaeth
    - Cysylltedd digidol
    - Tir ac eiddo
    - Ynni carbon isel
- Neuadd Warren, Brychdyn
- Porth y Gorllewin, Wrecsam
- hen Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych
- Parc Bryn Cegin, Bangor – symud cynnig Datblygiad Diwydiannol Ysgafn yn ei flaen
- Porth Caergybi, Caergybi

Gofynnodd y Cynghorydd Bernie Attridge am wybodaeth ynglŷn ag unrhyw fuddsoddiad a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint yn y Rhaglen Tir ac Eiddo, a mynegodd bryderon ynglŷn â'r datblygiad a'r effaith ar isadeiledd ffyrdd a thir yn Sir y Fflint a'r amserlenni. Ymatebodd Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo i gwestiynau a sylwadau'r Cynghorydd Attridge. Darparodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) ymateb pellach i'r sylwadau'n ymwneud â chynllun datblygu Neuadd Warren, Brychdyn.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 64. SAFONAU'R GWASANAETHAU STRYD

Cyflwynodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) adroddiad a oedd yn amlinellu'r bwriad i adolygu'r Safonau presennol ac argymell newidiadau sy'n cysylltu'n agosach i Gynllun y Cyngor a Chynllun Busnes portffolio. Eglurodd mai'r bwriad oedd sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni anghenion a disgwyliadau'r cyhoedd a phreswylwyr, gan wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael. Diben yr adroddiad oedd egluro diffygion y ddogfen bresennol a cheisio cefnogaeth gan Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Stryd a Chludiant i adolygu a chefnu ar y Safonau presennol. Byddai hyn yn creu cyfres o fetrigau perfformiad mwy cadarn a pherthnasol y gellid eu mesur, monitro ac adrodd amdanynt yn fwy effeithiol. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y prif ystyriaethau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Awgrymodd y Cynghorydd Bernie Attridge y dylid cynnull Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi adolygu'r Safonau, a chefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Gwnaeth y Cynghorydd Mike Peers sylwadau ar yr angen i sicrhau bod y Safonau'n cael eu gweithredu, nid eu hanwybyddu. Yr oedd yn cefnogi ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen. Wrth ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Peers, anogodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) yr Aelodau i roi gwybod am unrhyw broblemau neu ddiffygion o ran perfformiad yn uniongyrchol i Swyddogion, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, neu'r Ganolfan Gyswllt fel bod y mater yn cael ei gofnodi, ei neilltuo, a chamau gweithredu priodol yn cael eu cymryd.

Cododd y Cynghorydd Richard Lloyd bryderon ynglŷn â'r oedi a brofwyd gan rai preswylwyr wrth gael mynediad at y gwasanaethau a ddarperir gan Ganolfannau Cyswllt, a gofynnodd i ddarpariaeth ychwanegol fod ar gael yn ward Saltney er mwyn galluogi preswylwyr lleol i dalu am wasanaethau. Gwnaeth sylwadau hefyd ynglŷn â glanhau llochesi bws, a chyfeiriodd at ddarpariaeth llochesi bws yn ei ward. Gwnaeth Aelodau sylwadau ynglŷn â'r angen i ddarparu gwybodaeth gyfredol am amserlenni mewn llochesi bws, a sicrhau bod amserlenni bysiau ar gael i'r cyhoedd mewn fersiwn wedi ei argraffu yn ogystal ag ar-lein.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Roy Wakelam.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r cynnig i gefnu ar ddogfen bresennol Safonau'r Gwasanaethau Stryd, a chefnogi'r adolygiad arfaethedig i'w disodli gyda chyfres ddiwygiedig o fetrigau perfformiad sy'n ategu safonau gwasanaeth er mwyn mesur perfformiad yn ôl goblygiadau statudol presennol, Cynllun y Cyngor a pholisïau presennol;

(b) Cyflwyno adroddiad pellach pan fydd yr adolygiad wedi ei gwblhau; a

(c) Chynnull Grŵp Tasg a Gorffen i ystyried datblygiad y Safonau newydd.

## 65. POLISI TORRI GLASWELLT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) adroddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor am y Polisi Torri Glaswellt diwygiedig yn dilyn gweithdy i'r holl Aelodau, a gynhaliwyd ar y cyd ym mis Ionawr 2023 gan bortffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant a phortffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi. Darparodd wybodaeth gefndir ac eglurodd mai diben yr adroddiad oedd darparu trosolwg o'r gwaith a wnaed hyd yma gan y ddau bortffolio, ac i ystyried y cyfleoedd ar gyfer adolygu'r polisi yn y dyfodol. Yn ogystal, yr oedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad gwasanaeth gweithredol torri glaswellt yn ystod 2022.

Adroddodd y Swyddog Bioamrywiaeth, Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd a Goruchwyliwr Gwasanaethau Stryd ar y cyd am y prif ystyriaethau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Llongyfarchwyd y Prif Swyddog a'i thîm gan y Cynghorydd Bernie Attridge am y gwelliannau cyffredinol yn y gwasanaeth torri glaswellt. Gwnaeth sylwadau hefyd ar rai o'r pryderon eraill a oedd ganddo ynglŷn â gerddi tenantiaid a chyfeiriodd at dorri glaswellt mewn ardaloedd bychain yn perthyn i dai gwarchod fel enghraifft.

Wrth ymateb i'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Richard Lloyd ynglŷn â chynnal a chadw ardaloedd wrth ymyl garejis, eglurodd y Prif Swyddog fod cynnal a chadw ardaloedd garejis sy'n perthyn i dai cymdeithasol yn dod o fewn cylch gwaith y Gwasanaeth Tai.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Mike Allport.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cefnogi'r gwaith a wnaed hyd yma a'r cyfleoedd i gynyddu bioamrywiaeth wrth reoli'r lleiniau ar ymyl ein ffyrdd a glaswelltiroedd amwynder; a

(b) Chefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r polisi torri glaswellt a'r gostyngiad wedi ei dargedu yn y defnydd o blaladdwyr.

## 66. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

Darparodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) wybodaeth gefndir a hysbysodd fod gofyn i Gyngor Sir y Fflint adolygu a darparu datganiad cynnydd ‘diwedd cyfnod’ ar gyfer y strategaeth toiledau lleol o fewn blwyddyn i bob etholiad cyffredin ar gyfer ei ardal.  Dyddiad etholiad llywodraeth leol yng Nghymru oedd 5 Mai 2022, a oedd yn golygu mai’r dyddiad hwyraf ar gyfer adolygiad oedd erbyn 4 Mai 2023. Diben yr adroddiad oedd darparu trosolwg o’r cefndir deddfwriaethol a nodi sut oedd y Cyngor yn bwriadu adolygu’r strategaeth bresennol.

Cyflwynodd y Rheolwr Rhwydwaith Ardal yr adroddiad a chyfeiriodd at y prif ystyriaethau.  Tynnodd y Prif Swyddog sylw at amserlen arfaethedig yr adolygiad fel yr amlinellir ym mharagraff 1.07 yr adroddiad.  Adroddodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd ar yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus statudol a oedd i’w gynnal.

Mynegodd y Cynghorydd Bernie Attridge bryderon ynglŷn â darpariaeth toiledau cyhoeddus mewn cymunedau lleol yn y dyfodol.  Gofynnodd a oedd mwy o gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru neu ffrydiau cyllido amgen i wella’r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd.  Ymatebodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd i’r sylwadau a’r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Attridge, a dywedodd fod cyfleoedd newydd yn cael eu hystyried i gynnig darpariaeth ledled y Sir.

Gwnaeth y Cynghorydd Mike Peers sylwadau am y cyfleusterau sydd ar gael mewn Cynghorau Tref a Chymuned, a chyfeiriodd at ddatblygiad arfaethedig yn ward Mynydd Bwcle.

Cafodd yr argymhellion, fel y nodir yn yr adroddiad, eu cynnig a’u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Mike Allport.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cefnogi adolygiad arfaethedig o’r strategaeth toiledau lleol; a

(b) Chymeradwyo’r dull gweithredu a’r amserlenni y bwriedir eu dilyn, fel y nodir yn yr adroddiad.

## 67. GWASANAETHAU PROFEDIGAETH

Darparodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) wybodaeth gefndir a dywedodd mai diben yr adroddiad oedd darparu’r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y capasiti claddu presennol ym mynwentydd Sir y Fflint a rhoi trosolwg o’r dewisiadau ar gyfer adolygu a chynyddu capasiti.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cludiant.  Gwahoddodd Reolwr y Gwasanaethau Profedigaeth i ddarparu trosolwg o’r capasiti claddu sydd ar ôl ym mynwentydd Penarlâg Rhif 2 a Bwcle, a oedd ar lefel ddifrifol – disgwylid y byddai’r ddwy fynwent yn llawn ymhen pedair blynedd yn unig.  Dywedodd fod dau brosiect ar wahân, sydd â’r nod o ddarparu capasiti ychwanegol yn y ddau leoliad, yn mynd rhagddynt a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am

ddatblygiadau. Adroddodd hefyd am y datrysiadau amgen a allai gynorthwyo gyda'r pwysau a chyfyngiadau presennol sy'n gysylltiedig â'r gofyn am gladdu, a'r dewisiadau sy'n cynnig gwell buddion amgylcheddol.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau am y capasiti sy'n weddill ym mynwentydd Penarlâg a Bwcle, a gofynnodd sawl cais am gladdu oedd yn "geisiadau newydd", neu a oedd yn gysylltiedig â lleiniau teuluol presennol. Cytunodd y swyddogion i ddarparu'r wybodaeth ar ôl y cyfarfod. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd digon o dir ar gael yn y sir i ehangu'r ddarpariaeth, a mynegodd bryderon ynglŷn â'r angen i brynu tir ychwanegol. Cyfeiriodd at y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac a oedd unrhyw safleoedd ynddo.

Gofynnodd y Cynghorydd Chris Bithell a oedd gan y Cyngor bolisi ar 'bentyrru' claddedigaethau a'r rhesymau dros ffafrio claddu yn hytrach nag amlosgi. Ymatebodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth hefyd i'r cwestiynau a sylwadau a godwyd gan y Cynghorydd Dan Rose am ddarpariaeth mewn awdurdodau cyfagos, costau angladdau a hyrwyddo'r dewisiadau sydd ar gael, y posibilrwydd o ddefnyddio tir mewn mynwentydd sydd wedi cau, cynllunio hirdymor yn ymwneud ag effaith demograffeg a datblygiadau tai newydd ac yn y dyfodol, ac amserlen ar gyfer defnyddio lleiniau claddu ar gyfer aelodau o'r teulu.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Roy Wakelam.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor Craffu'n nodi'r lefelau capasiti cyfredol ym mhob un o fynwentydd y sir, ac yn nodi'r angen i gynyddu capasiti mewn safleoedd lle mae'r sefyllfa'n ddifrifol;

(b) Bod y Pwyllgor Craffu'n cefnogi cais am gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer symud ymlaen gydag ehangu mynwent Penarlâg Rhif 2;

(c) Bod y Pwyllgor Craffu'n cefnogi cynigion i ddarparu capasiti claddu ychwanegol ym Mynwent Bwcle, ac yn cymeradwyo cyflwyno cais yn y dyfodol am gyllid cyfalaf; a

(ch) Bod y Pwyllgor Craffu'n cymeradwyo ymchwilio mwy i ddewisiadau claddu ac amlosgi amgen fel ffordd o gynnal capasiti mynwentydd yn y dyfodol, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

**68. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.28pm)

……………………………………………
**Cadeirydd**